

Memorandwm Esboniadol i Orchymyn Pysgodfa Cregyn Gleision a Wystrys Afon Menai (Dwyrain) 2022.

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi'i baratoi gan is-adran y Môr a Physgodfeydd ac wedi'i osod ger bron Senedd Cymru gyda'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig **Gorchymyn Pysgodfa Cregyn Gleision a Wystrys Afon Menai (Dwyrain) 2022**. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Lesley Griffiths AS/MS
Gweinidog Materion Gwledig a'r Gogledd, a'r Trefnydd


4 Mawrth 2022

RHAN 1

1. Disgrifiad

1.1 Mae'r Gorchymyn yn rhoi hawl pysgodfa unigol a rheoledig i'r Grantî ar gyfer cregyn gleision (*Mytilus Edulis*) a wystrys (*Ostreidae*) dros ardal o ryw 694.48 hectar (ha) yn Afon Menai (Dwyrain) dros gyfnod o 35 o flynyddoedd.

1.2 Mae map enghreifftiol o ardal y Gorchymyn wedi'i gynnwys isod:



2. Materion o ddi-ddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

3. Cefndir deddfwriaethol

3.1 Gwneir y Gorchymyn o dan Adrannau 1 a 4 o Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967 (c83) ("Deddf 1967").

3.2 Mae adran 1(1) o Ddeddf 1967 yn darparu y caiff y Gweinidog Priodol, ar gais, ddarparu drwy orchymyn ar gyfer sefydlu neu wella a chynnal a rheoleiddio pysgodfa pysgod cregyn o'r math a bennir yn y gorchymyn. Gall y gorchymyn gynnwys unrhyw gyfran o lan y môr a gwely'r môr neu aber neu afon llanw o fewn 6 milltir forol i'r llinellau sylfaen.

3.3 Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog priodol o dan adran 1, i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672 erthygl 2, Atodlen 1). Ers hynny, mae'r swyddogaethau hyn wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o'r Atodlen 11 iddi.

3.4 Mae adran 1 (3) o Ddeddf 1967 yn darparu y caiff gorchymyn roi hawl pysgodfa unigol ar y naill law a hawl rheoleiddio pysgodfa mewn perthynas â'r gweddill. Mae adran 3 yn cadarnhau mai effaith hawl pysgodfa unigol yw bod gan Grantî gorchymyn yr hawl egscliwsif i osod, lluosogi, llusgrwydo a chymryd pysgod cregyn o'r math a ddisgrifir mewn gorchymyn, a physgota amdanynt. Mae adran 4 yn cadarnhau mai effaith hawl i reoleiddio pysgodfa yw y caiff Grantî'r gorchymyn orfodi'r hawliau pysgota a roddir a hefyd i roi cyfyngiadau arnynt, er enghraifft rhoi trwyddedau i'w casglu.

3.5 Mae'r Gorchymyn yn dilyn gweithdrefn penderfyniad negyddol Senedd Cymru.

4. Diben ac effaith fwriedig y ddeddfwriaeth

4.1 Rhoddwyd Gorchymyn Pysgodfeydd hybrid (unigol a rheoleiddio) i Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Orllewin Lloegr a Gogledd Cymru ar gyfer cynhyrchu cregyn gleision ac wystrys ym mhen dwyreiniol Afon Menai (Dwyrain Menai), o dan Ddeddf Pysgodfeydd Môr 1868, am gyfnod o 60 mlynedd ym 1962.

4.2 Pan ddiddymwyd Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Orllewin Lloegr a Gogledd Cymru yn 2010 (gan ddarpariaethau Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009), trosglwyddwyd swyddogaethau, eiddo, hawliau a rhwymedigaethau'r Pwyllgor o dan Ddeddf 1962 i Gymdeithas Rheoli Gorchymyn Pysgodfeydd Afon Menai (MSFOMA). Mae amcanion honno'n cynnwys, ymhlith eraill, gyflawni'r holl rwymedigaethau statudol fel grantî o dan Orchymyn 1962 wrth arfer ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth pysgodfeydd

4.3 Bydd y ddeddfwriaeth bresennol, Gorchymyn Pysgodfeydd Wystrys a Chregyn Gleision Afon Menai 1962, yn dod i ben ar 2 Ebrill 2022.

4.4 Daw'r Gorchymyn newydd, Gorchymyn Pysgodfa Cregyn Gleision a Wystrys Afon Menai (Dwyrain) 2022, i rym ar 2 Ebrill 2022 gan alluogi pysgodfa hirsefydledig ac economaidd bwysig Dwyrain Menai i barhau â'i hawliau presennol.

4.5 Mae Gorchymyn Pysgodfa Unigol yn rhoi hawl i'r grantî, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau ac eithriadau, i osod, lluosogi, llusgrwydo a chymryd pysgod cregyn penodedig, ac i bysgota amdanynt, o fewn terfynau'r bysgodfa. Mae Gorchymyn Pysgodfa Unigol yn trosglwyddo'r pysgod cregyn y mae'n ymwneud â nhw yn eiddo cyfreithiol i'r grantî. Mae'r trefniant hwn yn gosod dyframaethu ar sail ddiogel.

4.6 Mae Gorchymyn Rheoleiddio yn rhoi hawl i reoleiddio pysgodfa, gan ganiatáu i'r person y rhoddir y gorchymyn iddo ("y grantî") gyfyngu ar bwy sy'n cael llusgrwydo a physgota am bysgod cregyn penodedig, a'u cymryd, o fewn terfynau'r bysgodfa, neu ran o'r bysgodfa, a reoleiddir lle ceir arfer yr hawl. Defnyddir y trefniant hwn yn

gyffredinol i reoleiddio pysgodfa naturiol, gyda grantîr Gorchymyn yn gweithredu fel y rheoleiddiwr.

4.7 Bydd y Gorchymyn newydd yn rhoi hawl pysgodfa unigol a rheoleiddio i'r Grantî ar gyfer tyfu cregyn gleision ac wystrys o fewn ardal o ryw 694.48ha, yn nwyrain Afon Menai am gyfnod o 35 mlynedd o 2 Ebrill 2022.

5. Ymgynghori

5.1 Yn unol ag Atodlen 1 o Ddeddf 1967 lanswyd ymgynghoriad cyhoeddus un mis ar 8 Ebrill 2021 ar Orchymyn Pysgodfeydd Wystrys a Chregyn Gleision Afon Menai (Dwyrain), a barodd tan 8 Mai 2021.

5.2 Gofynnodd yr ymgynghoriad am unrhyw wrthwynebiadau neu sylwadau ysgrifenedig ynghylch y Gorchymyn Pysgodfeydd drafft, i'w hanfon i Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru.

5.3 Cyhoeddwyd y Gorchymyn Pysgodfeydd arfaethedig yn Fishing News, y Daily Post a'r Western Mail ac roedd ar gael ar wefan MSFOMA. Fe'i cyhoeddwyd hefyd yn adran y Môr a Physgodfeydd ar wefan Llywodraeth Cymru.

5.4 Derbyniwyd cyfanswm o 24 o ymatebion. Dangosodd yr ymatebion:

Ymatebion a ddaeth i law	Nifer	Canran yr ymatebion
Cefnogi	6	25%
Gwrthwynebu	8	33%
Ymholiadau	4	17%
Niwtral/Dim sylw	2	8%
Sylwadau	4	17%

5.5 Fel yr awgryma'r ffigurau hyn, dim ond 33% o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad oedd yn gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig. Nid oedd tystiolaeth i gefnogi llawer o'r rheini a fynegodd wrthwynebiad i'r gorchymyn. Nid oedd y gwrthwynebiadau eraill yn berthnasol i gynnwys y Gorchymyn.

5.6 Cafwyd sawl ymateb i gefnogi'r cynnig hefyd, ynghyd ag ymatebion niwtral. Er nad oeddynt yn bleidiol i'r cynnig, nid oeddynt yn wrthwynebus chwaith. Teimlai'r ymatebwyr hyn na fyddai'n cael fawr o effaith gan mai dim ond dyblygu'r trefniadau presennol y mae'r Gorchymyn arfaethedig.

5.7 Bydd crynodeb llawn o'r ymatebion ar gael i'r cyhoedd.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Opsiynau

6.1 Ystyriwyd tri opsiwn mewn perthynas â'r Gorchymyn:

- Opsiwn 1 – Gwneud Gorchymyn gyda ffin wedi'i haddasu, i eithrio ardaloedd sy'n destun gwrthwynebiad gan y bysgodfa;
- Opsiwn 2 – Gwneud y Gorchymyn fel y gwnaed cais amdano; neu
- Opsiwn 3 – Gwrthod y cais am Orchymyn.

Ers hynny, mae Opsiwn 2 wedi'i wrthod oherwydd diffyg gweithgareddau pysgota mewn rhai rhannau o'r bysgodfa a diffyg bwriad i ddechrau ei pysgota eto, ac yn dilyn gwrthwynebiadau a godwyd gan y rhai sy'n defnyddio cychod hamdden yn yr ardaloedd hyn.

Dyma'r opsiynau a ystyrir yn yr asesiad hwn:

Opsiwn A – Gwneud Gorchymyn Pysgodfa Cregyn Gleision a Wystrys Afon Menai (Dwyrain) gyda ffin wedi'i haddasu.

6.5 Byddai hyn yn rhoi hawl pysgodfa unigol i MSFOMA a rheoleiddio pysgodfa ar gyfer cregyn gleision ac wystrys dros ardal lai nag y gwnaed cais amdani, am gyfnod o 35 mlynedd.

6.6 Byddai Gorchymyn o'r fath yn diogelu'r holl gynhyrchu cregyn gleision presennol ynghyd â'r gweithgarwch economaidd a'r gyflogaeth y mae'n eu cefnogi yn ei gyfanrwydd.

Opsiwn B – Gwrthod y Gorchymyn

6.7 Byddai penderfyniad i wrthod y Gorchymyn yn methu â rhoi'r amddiffyniad angenrheidiol i lesddeiliaid a gweithredwyr y cwmnïau hyn i sicrhau buddsoddiadau, datblygu'r busnesau a diogelu neu gynyddu cyflogaeth.

6.8 Byddai gwrthod y Gorchymyn hefyd yn groes i amcan sector dyframaethu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru i hwyluso datblygiad dyframaeth cynaliadwy, gan gynnwys pysgod cregyn.

7. Costau a manteision

Opsiwn A – Gwneud Gorchymyn Pysgodfa Cregyn Gleision a Wystrys Afon Menai (Dwyrain) gyda ffin wedi'i haddasu.

7.1 Bydd yr opsiwn hwn yn caniatáu i'r bysgodfa barhau i gynhyrchu fel y mae ar hyn o bryd, gan sicrhau bod busnesau presennol yn cael eu diogelu ac y gellir buddsoddi ymhellach. Ar hyn o bryd, mae'r bysgodfa'n darparu ar gyfer gweithredu nifer o gwmnïau llwyddiannus, gyda throsiant o hyd at £4 miliwn y flwyddyn a chyflogaeth i tua 20 o staff medrus cyfwerth ag amser llawn.

7.2 Yn y tymor byr disgwylir y bydd y bysgodfa'n gweithredu fel y mae ar hyn o bryd, gydag wyth magwrfa ac ardal bysgodfa a reoleiddir ar les breifat, ond gyda'r hyblygrwydd i addasu i'r galw ac amodau'r pysgodfeydd. Mae'r cynnig yn sicrhau ffynhonnell incwm i'r diwydiant ac yn cynnig manteision i'r ardal leol drwy ei chyfraniadau i'r economi leol. Bydd sicrhau bod y bysgodfa hon yn bresennol yn y blynyddoedd i ddod yn cyfrannu at yr ardal leol, yn darparu cyflogaeth ac yn helpu i fynd i'r afael â thlodi.

7.3 Bydd yr opsiwn hwn yn arwain at leihau maint cyffredinol ardal y Gorchymyn o 763.24ha i ardal o 694.48ha. Ni fydd yr addasiad hwn yn newid nac yn effeithio fel arall ar y magwrfeydd ar les yn ardal y Gorchymyn. Mae'r ardaloedd a ddilëwyd yn lleihau maint posibl yr ardal bysgodfa a reoleiddir.

7.4 At hynny, efallai y bydd manteision amgylcheddol hefyd gan y gwyddys bod pysgod cregyn yn dal CO2 wrth i'r cregyn dyfu, yn ogystal â gwella ansawdd dŵr.

7.5 Cynhaliwyd Asesiad Rheoleiddio Cynefinoedd (HRA) mewn perthynas â'r gweithgareddau arfaethedig a diystyrwyd yr holl effeithiau andwyol. Caiff HRA ei ddiweddarau bob 7 mlynedd er mwyn sicrhau bod gwybodaeth wyddonol gyfredol yn cael ei hystyried a'i defnyddio.

7.6 Ni fyddai disgwyl i'r opsiwn hwn arwain at newid economaidd net na chostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

Opsiwn B – Gwrthod y Gorchymyn

7.7 Byddai'r opsiwn hwn yn methu â rhoi'r amddiffyniad angenrheidiol i'r lesddeiliaid a'r cwmnïau i sicrhau buddsoddiadau, datblygu'r busnesau a diogelu neu gynyddu cyflogaeth.

7.8 Byddai gwrthod y Gorchymyn yn groes i amcan sector dyframaethu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru i hwyluso datblygiad dyframaeth cynaliadwy, gan gynnwys pysgod cregyn.

7.9 At hynny, nid yw proses yr HRA, CNC na ffynonellau gwyddonol ac amgylcheddol eraill wedi canfod unrhyw effeithiau andwyol, na ellid eu lliniaru, o'r bysgodfa ar y safle, a fyddai'n rheswm dros wrthod y Gorchymyn. Gall gwrthod y Gorchymyn gael effaith negyddol ar y bysgodfa gan fod ychwanegu grawn cregyn gleision yn gwella'r stoc cregyn gleision. Os bydd y gweithgaredd hwn yn dod i ben bydd y stoc cregyn gleision yn dirywio'n raddol, a allai arwain at ddirywiad mewn bioamrywiaeth.

7.10 Pe bai'r Gorchymyn yn cael ei wrthod, ni fyddai'r ardal bysgodfa a reoleiddir yn cael ei rheoli gan MSFOMA mwyach ac yn hytrach byddai'n dychwelyd i fod yn

bysgodfa gyhoeddus. Byddai hyn yn golygu y byddai'r ardal yn dod o dan Orchymyn Cocos a Chregyn Gleision (Ardal Benodedig) (Cymru) 2011, sy'n nodi y byddai'n ofynnol i unrhyw berson a oedd am gasglu mwy na 5kg o gregyn gleision y dydd wneud cais am drwydded gan un o Weinidogion Cymru. Llywodraeth Cymru fyddai'n ysgwyddo'r baich ariannol ac yn darparu'r adnoddau ar gyfer rhoi trwyddedau.

7.11 Ni fyddai gwrthod y Gorchymyn yn atal y lesddeiliaid presennol rhag parhau â'u gweithrediadau, ond byddai hyn heb amddiffyniad a pherchnogaeth gyfreithiol y cregyn gleision a ddarperir gan y Gorchymyn.

7.12 Mae'n bosibl y gallai gwrthod y Gorchymyn arwain at gyfleoedd i geisydd arall wneud cais am orchymyn pysgodfa unigol, neu ddewis gweithredu busnes heb un, yn yr ardal hon. Fodd bynnag, ni chyflwynodd neb sylw na gwrthwynebiad i'r ymarfer ymgynghori ar y sail honno. At hynny, nid oes gennym dystiolaeth fod y Gorchymyn presennol yn cyfyngu nac yn atal gweithgareddau eraill, a fyddai fel arall yn digwydd pe na bai'r gorchymyn pysgodfeydd ar waith.

7.13 At hynny, gallai'r cyfleoedd hyn fod yn fyrhoedlog pe na bai'r bysgodfa'n cael ei rheoli. Er bod grawn cregyn gleision wedi'u trosglwyddo yn tyfu'n dda a bod amaethu cregyn gleision wedi bod yn gynhyrchiol iawn, nid yw'r ardal yn gynhyrchiol iawn o ran cregyn gleision gwyllt. Gallai fod perygl i'r bysgodfa a'r amgylchedd pe na bai gweithgareddau newydd yn cael eu cynnal yn gynaliadwy.

Crynodeb o'r opsiwn a ffefrir

7.14 Yr opsiwn a ffefrir yw Opsiwn 1, gan ddod â Gorchymyn newydd i rym, Gorchymyn Pysgodfa Cregyn Gleision a Wystrys Afon Menai 2022.

7.15 Byddai hyn yn sicrhau bod cynhyrchiant yn parhau, bod busnesau presennol yn cael eu diogelu a bod modd buddsoddi ymhellach, gan alluogi pysgodfa sefydledig ac economaidd bwysig Dwyrain Menai i barhau â'i hawliau presennol.

7.16 Byddai'r opsiwn hwn yn cyd-fynd ag amcan sector dyframaethu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru i hwyluso'r gwaith o ddatblygu dyframaeth cynaliadwy, gan gynnwys pysgod cregyn.

8. Asesu'r Gystadleuaeth

Prawf hidlo'r gystadleuaeth	
Cwestiwn	Ateb ie neu na
C1: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o fwy na 10% o'r farchnad?	Na
C2: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o fwy nag 20% o'r farchnad?	Na
C3: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd gyfran o 50% o'r farchnad o leiaf?	Ie
C4: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio'n sylweddol fwy ar rai cwmnïau nag eraill?	Na
C5: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y cwmnïau?	Na
C6: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?	Na
C7: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau parhaus uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?	Na
C8: A yw'r sector yn cael ei nodweddu gan newid technolegol cyflym?	Na
C9: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynnyrch?	Na

Atebir "Ie" i 1 cwestiwn yn unig, sy'n awgrymu nad yw'r rheoliad yn debygol o gael effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth.

Rhagwelir y bydd y bysgodfa'n parhau i weithredu fel y mae ar hyn o bryd, gydag 8 magwrfa a physgodfeydd a reoleiddir ar les breifat, ond gyda'r hyblygrwydd i addasu i'r galw ac amodau'r pysgodfeydd.

9. Adolygiad ar ôl gweithredu

Caiff effaith y Gorchymyn Pysgodfeydd ei monitro fel a ganlyn:

1. Mae adran 23 o'r Gorchymyn arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i'r Grantî gyflwyno cyfrifon incwm a gwariant yn flynyddol a bod yn rhaid caniatáu i bersonau a awdurdodir gan Weinidogion Cymru archwilio ardal y Gorchymyn, cyfrifon ac unrhyw ddogfennau eraill sy'n ymwneud â'r Gorchymyn;

2. Mae adran 24 o'r Gorchymyn arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i'r Grantî gyflwyno datganiad daliadau blynyddol i Weinidogion Cymru; a
3. Ceir gofyniad i adolygu'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) bob 7 mlynedd, a dyma'r cyfnod hwyaf y gall HRA ddod i'r casgliad na fydd unrhyw effeithiau andwyol ar unrhyw Safle Morol Ewropeaidd.